Bywgraffiad y Dyddiadurwr
John Jones (Jack), 1909-1997



Yn ôl rhif y cerbyd, fe dynnwyd y llun hwn ar ôl Awst 1968 (Ifor D. Williams)

Enw: John Jones (Jack - er mwyn ei wahaniaethu oddi with ei dad - John Jones, 1877-1958).

Ganed: Gallt-ysw, Bethel, Môn, Awst 21 neu Awst 24*, 1909. Symudodd y teulu i Dyn - Llan, Trefdraeth ym 1816 ar ôl i mam Jack a'i hen nain ffeirio tai.

Addysgwyd: Ysgol Genedlaethol (Eglwysig) Trefdraeth ym Methel, Medi 1814-1920; Ysgol Gynradd Bodorgan (Ysgol Newydd) 1920-1923.

Gwaith: Gwas ffarm ym Modeuon (Bodeon), Llangadwaladr, c.1920 - 1923. Gwas ffarm gyda John Williams a'i deulu, Tyn-rallt, Trefdraeth o 1924 hyd at farwolaeth John Williams. Bu yna yn Bentir yn Nhyn-rallt gyda Jinny a Maggie Williams, merched John Williams hyd iddynt ymddeol, gadael Tyn-rallt a symud i Fronallt, Bethel ym 1962. Symudodd yntau i Fronallt gyda hwy a bu'n weithiwr ffordd gyda

Cyngor Sir Fôn (ac am dymor byr) gyda Cyngor Sir Gwynedd hyd ei ymddeoliad yn Awst 1974.

Gweithgareddau a diddordebau: Warden a chlochydd (ar brydiau) Eglwys Beuno Sant, Trefdraeth ac aelod o bwyllgorau eglwysig etc, dros flynyddoedd lawer. Aelod o Gyngor Plwyf Trefdraeth am rai degau o flynyddoedd. Gwladwr a ffermwr gwybodus a mentrus; waliwr a thyrchwr (fel ei dad).

Bu farw: Ysbyty Gwynedd, Bangor, 11.50 a.m. Ionawr 1, 1997 a chladdwyd ef ym Mynwent Trefdraeth (y fynwent bach).

Geiriau ar ei garreg fedd: Cyfaill pawb; gelyn neb.

**Camgymeriad y Cofrestrydd yn ôl fy nain*

Tomos Roberts, Penrhyn-gwyn, Aberffraw 8 Ionar 2012

Yn Bronallt 19 Medi 1962
Dan Wil Williams



Miss Maggie Williams Miss Jennie Williams Jack Jones